

# Cytundebau Rhyngwladol:

## Y Goblygiadau i Gymru

Cytundebau a drafodwyd ar 16  
Medi 2019

---

### Crynodeb

Mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi mabwysiadu gweithdrefn ar gyfer ystyried y goblygiadau i Gymru yn sgil cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU.

Yr hyn yr ydym yn canolbwyntio arno yw tynnu sylw at gytundebau sy'n ymwneud â meysydd polisi y mae'r Cynulliad Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt, neu sy'n effeithio ar y meysydd polisi hynny mewn rhyw ffordd.

Lle bo cytundebau yn cael effaith i'r perwyl hwnnw, rydym yn ystyried a oes angen dod â'r cytundeb i sylw'r Cynulliad cyfan, drwy gyflwyno adroddiad arno, ynteu ddim ond ei nodi ym mhapurau'r pwyllgor.



Ar 16 Medi 2019, gwnaethom ystyried wyth cytundeb. O'r wyth hynny, gwnaethom gytuno i adrodd ar y ddau gytundeb sydd wedi'u rhestru isod.

## Cyflwyniad

1. Ar 16 Medi 2019, gwnaethom ystyried wyth cytundeb rhyngwladol a lofnodwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU.
2. Dyma'r cytundebau a ystyriwyd gennym:
  - Cytuniad y DU-Portiwgal ar hawliau pleidleisio cilyddol ar gyfer etholiadau lleol
  - Cytuniad y DU-Lwcsembwrg ar hawliau pleidleisio cilyddol ar gyfer etholiadau lleol
  - Atodlenni Newydd ac Atodlenni Diwygiedig i'r Cytundeb Diwygiedig ar Gaffael y Llywodraeth o ganlyniad i gytuniad Awstralia
  - Cytundeb y DU-Swistir ar fynediad i'r farchnad lafur am gyfnod pontio dros dro a'r Cytundeb Rhyddid Symud Pobl
  - Cytundeb yn sefydlu Sefydliad Rhyngwladol Gwinwydd a Gwin
  - Cytundeb Coffi Rhyngwladol 2007
  - Cytundeb Siwgr Rhyngwladol 1992
  - Cytundeb cysylltiadau y DU-Canolbarth America
3. Cytunwyd i gyflwyno adroddiad ar ddau o'r cytundebau a drafodwyd er mwyn tynnu sylw at bryderon a godwyd ynghylch ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig.
4. Dyma'r cytundebau y cytunwyd i gyflwyno adroddiad arnynt:
  - Cytuniad y DU-Portiwgal ar hawliau pleidleisio cilyddol ar gyfer etholiadau lleol
  - Cytuniad y DU-Lwcsembwrg ar hawliau pleidleisio cilyddol ar gyfer etholiadau lleol

# 1. Cytuniad y DU-Portiwgal ar hawliau pleidleisio cilyddol ar gyfer etholiadau lleol

## Y cefndir

5. Mae cytundeb y DU-Portiwgal ar hawliau pleidleisio cilyddol ar gyfer etholiadau lleol yn gytundeb rhyngwladol ac fe'i gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 4 Gorffennaf 2019.
6. Mae testun y cytundeb a'r dogfennau esboniadol cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU i'w gweld ar-lein.

## Asesiad cyfreithiol

A yw'r cytundeb yn ymwneud â phwnc o fewn cymhwysedd y Cynulliad?
Ydi, mae'r cytundeb yn ymwneud â phwnc o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

## Asesiad polisi

A oes goblygiadau polisi i Gymru?
Oes, fel y nodir yn yr adran hon.

7. Byddai'r Cytundeb DU-Portiwgal ar Gyfranogiad mewn Rhai Etholiadau Cenedlaethol i Wladolion sy'n Preswyllo yn Nhiriogaeth y Llall yn caniatáu i wladolion Prydain a gwladolion Portiwgal pleidleisio a sefyll mewn rhai etholiadau yng ngwledydd ei gilydd.
8. Tra bod y DU yn aelod o'r UE, mae dinasyddion y DU sy'n byw yn yr UE27 yn gallu sefyll a phleidleisio drwy gyfraith yr UE mewn etholiadau i Senedd Ewrop, llywodraeth leol a threfol (yn amodol ar rai eithriadau) yn Aelod-wladwriaeth yr UE y maent yn byw ynddo. Yn yr un modd, mae dinasyddion yr UE27 sy'n byw yn y DU yn gallu sefyll a phleidleisio yn etholiadau lleol y DU a sefyll a phleidleisio yn etholiadau'r DU i Senedd Ewrop. **Fodd bynnag, bydd yr hawl hon drwy gyfraith yr UE yn newid ar yr adeg y bydd y DU yn gadael yr UE** (cyn gynted ag y bydd y cyfnod pontio yn cychwyn yn achos cytundeb neu ar y diwrnod gadael os bydd y DU yn gadael heb gytundeb) - ac yn amlwg ni fydd y DU yn cynnal etholiadau i Senedd Ewrop mwyach.

- 9.** Yr etholwyr ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yw (o dan adran 12 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) etholfraint y llywodraeth leol. Felly mae gan ddinasyddion yr UE sy'n preswyllo yng Nghymru hawl i bleidleisio yn y ddau etholiad datganoledig. Nodir yr etholfraint llywodraeth leol yn adran 2 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("Deddf 1983") ac nid yn neddfwriaeth yr UE. Felly bydd yr hawl i bleidleisio yn etholiadau Cynulliad a llywodraeth leol Cymru yn parhau oni bai y diwygir y ddeddf honno. Yn dilyn Deddf Cymru 2017, y Cynulliad sy'n gyfrifol am ddiwygio'r etholfraint ar gyfer etholiadau datganoledig.
- 10.** Mae'r **Memorandwm Esboniadol i'r cytundeb** yn tynnu sylw at y ffaith bod y DU wedi pwyso am hawliau pleidleisio cilyddol ar gyfer etholiadau lleol a threfol yn y negodiadau ynghylch ymadael, ond nid oedd yn gallu sicrhau'r hawliau hyn yn y Cytundeb Ymadael. Felly, bydd gallu gwladolion y DU sy'n byw yn yr UE27 i barhau i allu pleidleisio a sefyll mewn etholiadau lleol a threfol yn dibynnu ar reolau etholiadol Aelod-wladwriaeth yr UE y maent yn byw ynddo. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i nodi y bydd Llywodraeth y DU yn ceisio cytuno ar gytundebau dwyochrog ag Aelod-wladwriaethau'r UE lle bo hynny'n bosibl i sicrhau hawliau pleidleisio ar gyfer y dyfodol.
- 11.** Mae tua 26,000 o wladolion y DU yn byw ym Mhortiwgal. Gan hynny, trafododd Llywodraeth y DU y cytundeb dwyochrog hwn â Phortiwgal er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan y gwladolion hyn o'r DU ynghylch eu hawliau yn y dyfodol, trwy sicrhau'r hawl i bleidleisio mewn etholiadau lleol yn ogystal â'r hawl i sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiadau lleol.
- 12.** Mae Erthygl 3 o'r Cytundeb yn gosod **hawl gwladolion Portiwgeaidd sy'n byw yn y DU i bleidleisio a sefyll yn etholiadau lleol y DU**. Bydd gan wladolion Portiwgeaidd sy'n preswyllo'n gyfreithiol yn y DU yr hawl i bleidleisio a sefyll fel ymgeiswyr yn etholiadau lleol y DU yn ddarostyngedig i'r un amodau â gwladolion y DU. Mae hyn yn cynnal y status quo.
- 13.** Mae Erthygl 4 o'r cytundeb yn nodi **hawl gwladolion y DU sy'n byw ym Mhortiwgal i bleidleisio a sefyll mewn etholiadau trefol ym Mhortiwgal**. Bydd gan wladolion y DU sy'n preswyllo'n gyfreithiol ym Mhortiwgal yr hawl i bleidleisio a sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiadau lleol ym Mhortiwgal yn ddarostyngedig i'r un amodau â gwladolion Portiwgal. I bleidleisio yn etholiadau lleol Portiwgal, rhaid i wladolion y DU fod â thrwydded breswyllo ddilys, rhaid iddynt fod wedi bod yn breswyllydd cyfreithiol ym Mhortiwgal am o leiaf 3 blynedd, a bod wedi cofrestru yng Nghyfrifiad Etholiadol Portiwgal ar ôl ymrestru ym Mhlwyf yr ardal breswyl a nodwyd yn eu trwydded breswyllo. I sefyll a chael eu hethol mewn etholiad lleol ym Mhortiwgal, rhaid bod

gwladolion y DU wedi bod yn byw yn gyfreithiol ym Mhortiwgal am o leiaf bum mlynedd, a pheidio â bod yn anghymwys i bleidleisio.

- 14.** Mae Erthygl 8 o'r cytundeb yn nodi'r **trefniadau ar gyfer addasu'r cytundeb**. Gellir addasu'r cytundeb trwy gytundeb ysgrifenedig rhwng y DU a Phortiwgal, a bydd unrhyw welliant yn dod i rym 10 diwrnod calendr ar ôl i'r partïon hysbysu ei gilydd y cwblhawyd y gweithdrefnau mewnol er mwyn iddynt ddod i rym.
- 15.** Mae Erthygl 9 yn nodi y **caiff y naill barti neu'r llall derfynu'r cytundeb yn ysgrifenedig neu drwy sianeli diplomyddol**, a bydd y terfyniad hwnnw'n digwydd 60 diwrnod calendr ar ôl i'r wlad arall dderbyn yr hysbysiad. Pe bai hyn yn digwydd, bydd mandad gwladolion y DU neu Bortiwgal a etholir yn y cyfryw wlad yn parhau nes bydd yr etholiad nesaf neu'r mandad yn cael ei derfynu o dan amodau a ddarperir gan y gyfraith ar gyfer gwladolion y wlad ei hun.

### Cyfranogiad y gweinyddiaethau datganoledig

- 16.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu at y gweinyddiaethau datganoledig a phleidiau gwleidyddol Gogledd Iwerddon i'w hysbysu o'r dull o fynd ar drywydd cytundebau pleidleisio dwyochrog. Rhoddodd yr Adran ar gyfer Ymadael â'r UE ddiweddariad i'r gweinyddiaethau datganoledig ar y cynnydd a wnaed o ran hawliau pleidleisio trwy gynnal galwad ffôn bob pythefnos a rhannu testunau cyfreithiol y cytuniadau. **Fodd bynnag, yn wahanol i'r cytundeb rhwng y DU a Sbaen, nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod y gweinyddiaethau datganoledig yn fodlon ar ddull Llywodraeth y DU.**
- 17.** **Ysgrifennodd y Prif Weinidog at y Llywydd ar 3 Gorffennaf** gan dynnu sylw at ei bryderon ynghylch y trefniadau addasu yng nghytundebau pleidleisio cilyddol y DU ag Aelod-wladwriaethau unigol yr UE. Nododd yn ei lythyr fod Llywodraeth y DU yn cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol y gweinyddiaethau datganoledig, gan na fyddai Cynulliad yn y dyfodol yn gallu deddfu i dynnu'r etholfraint oddi wrth ddinasyddion o'r fath. Er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sefyllfa bolisi yn y cytundebau, gan y bydd y rhain yn sicrhau parhad yr etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol (a'r Cynulliad) ar gyfer Aelod-wladwriaethau yr UE y mae gan y DU gytundebau â nhw, mae'n codi'r posibilrwydd y gall Cynulliad yn y dyfodol ddal safbwynt gwahanol. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio'r angen am broses i dynnu Cymru o'r mecanwaith pe bai Cynulliad yn y dyfodol yn dal y safbwynt gwleidyddol hwn. Mae hefyd wedi nodi wrth Lywodraeth y DU fod yn rhaid i

Llywodraeth Cymru gael cymryd rhan yn llawn yn nhrefodaethau'r cytundebau hyn, fel na wneir ymrwymïadau ar ei rhan, a hynny heb ei chydsyniad.

- 18.** Mewn gohebiaeth bellach ar 12 Medi, ailadroddodd y Prif Weinidog bryderon cyfansoddiadol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chytundebau Lwcsembwrg a Phortiwgal. Ar ben hynny, rhoddodd y Prif Weinidog sicrwydd mewn egwyddor y bydd Llywodraeth Cymru “fel arfer yn hysbysu'r Pwyllgor” pan ymgynghorir â hi ar gytundebau rhyngwladol y DU, ond y gall fod achlysuron pan fydd angen parchu cyfyngiadau cyfrinachedd.

## Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi

- 19.** Mae Pwyllgor Dethol yr UE yn Nhŷ'r Arglwyddi wedi cyflwyno adroddiad ar y cytundeb, a ystyriwyd gan y Pwyllgor hwnnw ar 23 Gorffennaf. Ni wnaeth unrhyw sylwadau ar agweddau penodol ar y Bil, ac adroddodd ar y cytundeb er gwybodaeth.

## Goblygiadau ar gyfer datganoli

- 20.** Mae hon yn enghraifft bwysig sy'n dangos Llywodraeth y DU yn ymrwymo i gytundebau rhyngwladol sy'n ymwneud â meysydd datganoledig.
- 21.** Yn achos y cytundebau presennol gyda Sbaen, Portiwgal a Lwcsembwrg, mae hyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth y DU yn methu â dod i gytundeb â rhai Aelod-wladwriaethau eraill, ac yna'n ceisio dileu (neu gyfyngu) yr hawl i bleidleisio o dan adran 2 o Ddeddf 1983. Os yw Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn dymuno cadw hawl gwladolion y wlad honno i bleidleisio mewn etholiadau datganoledig, efallai y bydd angen gweithredu'n gyflym i sicrhau nad yw unrhyw newidiadau a wneir gan Lywodraeth y DU yn berthnasol i etholiadau datganoledig. Gallai hynny gynnwys defnyddio gweithdrefn y Bil Brys a nodir yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad.

## Casgliadau

Oherwydd y tebygrwydd (o ran y materion a godir) rhwng cytundebau'r DU-Portiwgal a'r DU-Lwcsembwrg, manylir ar ein canfyddiadau a'n casgliadau ar ddiwedd adran 2.

---

<sup>1</sup> Hyperlink when available

## 2. Cytundeb y DU-Lwcsembwrg ar Gyfranogiad mewn Rhai Etholiadau ar gyfer Gwladolion o Bob Gwlad sy'n Preswyllo yn Nhiriogaeth y Llall

### Y cefndir

**22.** Mae Cytundeb y DU-Lwcsembwrg ar Gyfranogiad mewn Rhai Etholiadau ar gyfer Gwladolion o Bob Gwlad sy'n Preswyllo yn Nhiriogaeth y Llall yn gytundeb rhyngwladol a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 4 Gorffennaf 2019.

**23.** Mae testun y cytundeb a'r dogfennau esboniadol cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU [i'w gweld ar-lein](#).

### Asesiad cyfreithiol

A yw'r cytundeb yn ymwneud â phwnc o fewn cymhwysedd y Cynulliad?
Ydi, mae'r cytundeb yn ymwneud â phwnc o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

### Asesiad polisi

A oes goblygiadau polisi i Gymru?
Oes, fel y nodir yn yr adran hon.

**24.** Byddai cytundeb y [DU-Lwcsembwrg](#) yn caniatáu i wladolion Prydain a Lwcsembwrg bleidleisio a sefyll am rai etholiadau yng ngwledydd ei gilydd.

**25.** Tra bod y DU yn aelod o'r UE, mae dinasyddion y DU sy'n byw yn yr UE27 yn gallu sefyll a phleidleisio drwy gyfraith yr UE mewn etholiadau i Senedd Ewrop, llywodraeth leol a threfol ([yn amodol ar rai eithriadau](#)) yn Aelod-wladwriaeth yr UE y maent yn byw ynddo. Yn yr un modd, mae dinasyddion yr UE27 sy'n byw yn y DU yn gallu sefyll a phleidleisio yn etholiadau lleol y DU a sefyll a phleidleisio yn etholiadau'r DU i Senedd Ewrop. Fodd bynnag, bydd yr hawl hon drwy gyfraith yr UE yn newid ar yr adeg y bydd y DU yn gadael yr UE (cyn gynted ag y bydd y cyfnod pontio yn cychwyn yn achos cytundeb neu ar y

diwrnod gadael os bydd y DU yn gadael heb gytundeb) - ac yn amlwg ni fydd y DU yn cynnal etholiadau i Senedd Ewrop mwyach.

- 26.** Yr etholwyr ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yw (o dan adran 12 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) etholfraint y llywodraeth leol. Mae dinasyddion yr UE sy'n preswyllo yng Nghymru felly â hawl i bleidleisio yn y ddau etholiad datganoledig. Nodir yr etholfraint llywodraeth leol yn adran 2 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ac nid yn neddfwriaeth yr UE. Felly bydd yr hawl i bleidleisio yn etholiadau Cynulliad a llywodraeth leol Cymru yn parhau oni bai y diwygir y ddeddf honno. Yn dilyn Deddf Cymru 2017, y Cynulliad sy'n gyfrifol am ddiwygio'r etholfraint ar gyfer etholiadau datganoledig.
- 27.** Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r cytundeb yn tynnu sylw at y ffaith bod y DU wedi pwyso am hawliau pleidleisio cilyddol ar gyfer etholiadau lleol a threfol yn y negodiadau ynghylch ymadael, ond nid oedd yn gallu sicrhau'r hawliau hyn yn y Cytundeb Ymadael. Felly, bydd gallu gwladolion y DU sy'n byw yn yr UE27 i barhau i allu pleidleisio a sefyll mewn etholiadau lleol a threfol yn dibynnu ar reolau etholiadol Aelod-wladwriaeth yr UE y maent yn byw ynddo. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i nodi y bydd Llywodraeth y DU yn ceisio cytuno ar gytundebau dwyochrog ag Aelod-wladwriaethau'r UE lle bo hynny'n bosibl i sicrhau hawliau pleidleisio ar gyfer y dyfodol.
- 28.** Mae tua 6,000 o wladolion y DU yn byw yn Lwcsembwrg, sef tua 1 y cant o gyfanswm y boblogaeth. Gan hynny, trafododd Llywodraeth y DU y cytundeb dwyochrog hwn â Lwcsembwrg er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan y gwladolion hyn o'r DU ynghylch eu hawliau yn y dyfodol, trwy sicrhau'r hawl i bleidleisio mewn etholiadau lleol yn ogystal â'r hawl i sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiadau lleol.
- 29.** Mae Erthygl 2 o'r Cytundeb yn gosod **hawl gwladolion Lwcsembwrg sy'n byw yn y DU i bleidleisio a sefyll yn etholiadau lleol y DU**. Bydd gan wladolion Lwcsembwrg sy'n preswyllo'n gyfreithiol yn y DU yr hawl i bleidleisio a sefyll fel ymgeiswyr yn etholiadau lleol y DU yn ddarostyngedig i'r un amodau â gwladolion y DU. Mae hyn yn cynnal y status quo.
- 30.** Mae Erthygl 3 o'r cytundeb yn nodi **hawl gwladolion y DU sy'n byw yn Lwcsembwrg i bleidleisio a sefyll mewn etholiadau trefol yn Lwcsembwrg**. Bydd gan wladolion y DU sy'n preswyllo'n gyfreithiol ym Lwcsembwrg yr hawl i bleidleisio a sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiadau lleol yn Lwcsembwrg yn ddarostyngedig i'r un amodau â gwladolion Lwcsembwrg. Rhaid bod gwladolion y DU wedi byw yn gyfreithiol yn Lwcsembwrg am o leiaf 5 mlynedd, a rhaid i'r flwyddyn ddiwethaf cyn gwneud cais i gofrestru fod yn ddi-dor.



- 31.** Mae Erthygl 5 o'r cytundeb yn gosod y **trefniadau ar gyfer addasu'r cytundeb**. Gellir addasu'r cytundeb trwy gytundeb ysgrifenedig rhwng y DU a Lwcsembwrg, ac yn unol â threfniadau cenedlaethol ar gyfer dod ag unrhyw addasiad i rym.
- 32.** Mae Erthygl 7 yn nodi y **caiff y naill barti neu'r llall derfynu'r cytundeb yn ysgrifenedig**, a bydd y terfyniad hwnnw'n digwydd 30 diwrnod calendr ar ôl i'r wlad arall dderbyn yr hysbysiad.

### Cyfranogiad y gweinyddiaethau datganoledig

- 33.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu at y gweinyddiaethau datganoledig a phleidiau gwleidyddol Gogledd Iwerddon i'w hysbysu o'r dull o fynd ar drywydd cytundebau pleidleisio dwyochrog. Rhoddodd yr Adran ar gyfer Ymadael â'r UE ddiweddariad i'r gweinyddiaethau datganoledig ar y cynnydd a wnaed o ran hawliau pleidleisio trwy gynnal galwad ffôn bob pythefnos a rhannu testunau cyfreithiol y cytuniadau. **Fodd bynnag, yn wahanol i'r cytundeb rhwng y DU a Sbaen, nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod y gweinyddiaethau datganoledig yn fodlon ar ddull Llywodraeth y DU.**
- 34.** Ysgrifennodd y **Prif Weinidog at y Llywydd ar 3 Gorffennaf** gan dynnu sylw at ei bryderon ynghylch y trefniadau addasu yng nghytundebau pleidleisio cilyddol y DU ag Aelod-wladwriaethau unigol yr UE. Nododd yn ei lythyr fod Llywodraeth y DU yn cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol y gweinyddiaethau datganoledig, gan na fyddai Cynulliad yn y dyfodol yn gallu deddfu i dynnu'r etholfraint oddi wrth ddinasyddion o'r fath. Er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sefyllfa bolisi yn y cytundebau, gan y bydd y rhain yn sicrhau parhad yr etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol (a'r Cynulliad) ar gyfer Aelod-wladwriaethau yr UE y mae gan y DU gytundebau â nhw, mae'n codi'r posibilrwydd y gall Cynulliad yn y dyfodol ddal safbwynt gwahanol. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio'r angen am broses i dynnu Cymru o'r mecanwaith hwn pe bai Cynulliad yn y dyfodol yn dal y safbwynt gwleidyddol hwn. Mae hefyd wedi nodi wrth Lywodraeth y DU fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gael cymryd rhan yn llawn yn nhrafodaethau'r cytundebau hyn, fel na wneir ymrwymïadau ar ei rhan, a hynny heb ei chydsyniad.

### Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi

- 35.** Mae Pwyllgor Dethol yr UE yn Nhŷ'r Arglwyddi **wedi cyflwyno adroddiad ar y cytundeb**, a ystyriwyd gan y Pwyllgor hwnnw ar 23 Gorffennaf. Ni wnaeth

unrhyw sylwadau ar agweddau penodol ar y Bil, ac adroddodd ar y cytundeb er gwybodaeth.

## Goblygiadau ar gyfer datganoli

- 36.** Mae hon yn enghraifft bwysig sy'n dangos Llywodraeth y DU yn ymrwmo i gytundebau rhyngwladol sy'n ymwneud â meysydd datganoledig.
- 37.** Yn achos y cytundebau presennol gyda Sbaen, Portiwgal a Lwcsembwrg, mae hyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth y DU yn methu â dod i gytundeb â rhai Aelod-wladwriaethau eraill, ac yna'n ceisio dileu (neu gyfyngu) yr hawl i bleidleisio o dan adran 2 o Ddeddf 1983. Os yw Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn dymuno cadw hawl gwladolion y wlad honno i bleidleisio mewn etholiadau datganoledig, efallai y bydd angen gweithredu'n gyflym i sicrhau nad yw unrhyw newidiadau a wneir gan Lywodraeth y DU yn berthnasol i etholiadau datganoledig. Gallai hynny gynnwys defnyddio gweithdrefn y Bil Brys a nodir yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad.
- 38.** Mewn gohebiaeth bellach ar 12 Medi<sup>2</sup>, ailadroddodd y Prif Weinidog bryderon cyfansoddiadol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chytundebau Lwcsembwrg a Phortiwgal. Ar ben hynny, rhoddodd y Prif Weinidog sicrwydd mewn egwyddor y bydd Llywodraeth Cymru "fel arfer yn hysbysu'r Pwyllgor" pan ymgynghorir â hi ar gytundebau rhyngwladol y DU, ond y gall fod achlysuron pan fydd angen parchu cyfyngiadau cyfrinachedd.

## Casgliadau (yn ymwneud â'r ddau Gytundeb)

Rydym yn nodi goblygiadau'r ddau gytundeb rhyngwladol i etholiadau yng Nghymru ac i'r setliad datganoledig. Rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r goblygiadau cyfansoddiadol wrth gytuno i'r cytundebau hyn, a chytundebau tebyg a fyddai'n dilyn, ar gyfer mater hawliau pleidleisio. Wrth osod yr adroddiad hwn, rydym yn gobeithio dwyn y materion hyn i sylw'r Cynulliad Cenedlaethol a hwyluso trafodaeth bellach yn y maes hwn.

Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru mewn egwyddor i'n hysbysu pan ymgynghorir â hi ar gytundeb rhyngwladol.

---

<sup>2</sup> Hyperlink when available

Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i ymgysylltu'n llawn â Llywodraeth Cymru wrth i gytundebau o'r math hwn gael eu datblygu gyda gwledydd eraill yn y dyfodol, ac rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru ein hysbysu am y cynnydd a wneir ar y materion hyn.

Rydym yn bwriadu cadw llygad ar y maes hwn a byddwn yn parhau i graffu ar y materion hyn mewn perthynas â chytundebau a osodir gerbron Senedd y DU yn y dyfodol.